YR

YMOFYNYDD.

CYFRES NEWYDD.] MAWRTH, 1895. [RHIF 87

"Profwch bob peth: deliwch yr hyn sydd dda."—PAUL.

Y PARCH. JOHN JAMES, GELLIONEN.

Y MAE cryn lawer o hanes bywyd y diweddar John James, o'r Gellionen, yr hwn y mae ei ddarlun gyferbyn, wedi ymddangos eisoes yn YR YMOFYNYDD am 1890—93. Ar ddymuniad y Golygydd tra gweithgar a ffyddlon yr wyf yn ysgrifenu y llinellau a ganlyn. Ni cheisiaf ond prin grybwyll rhai o'r prif ffeithiau yn nglyn â bywyd John James, a rhai o brif nodweddion ei gymmeriad fel dyn cyhoeddus. Y sawl a chwennycho ymgydnabyddu â mwy o fanylion bywyd y gwr da hwn, bydded iddo ddarllen y papyrau a welir yn YR YMOFYNYDD am y blynyddau uchod, yn nghyd a'r rhifynau ereill sydd i ganlyn, os bywyd a iechyd a gaf.

Er fod John James wedi myned i ffordd yr holl ddaear er ys blynyddau meithion bellach, ac er nad oes, am a wn I am dano, un o'i gyfoedion ar dir y byw heddyw, a braidd yn sicr nad oes, etto, y mae llawer yn ddiau yn mhlith yr Undodiaid, ac ereill yn Nghymru, ac fe ddichon amryw yn Lloegr hefyd, yn cofio am dano, ac mae ei goffadwriaeth yn barchus ac anwyl gan y rhai a'i hadwaenent yn dda hyd y dydd hwn.

Rhaid i mi ddweyd, cyn myned yn mhellach, nad yr olwg oreu ar John James a welir yn y darlun cyferbyn. Nid oedd yn gwneuthur cyfiawnder ag ef ei hun, er yn anymwybodol o hyny, pan yn eistedd i lawr yn y *studio*, neu yn ystafell yr arlunydd, pan oedd ei *photo* gwreiddiol yn cael ei gymmeryd. Nid oedd, ar y pryd, yn ei hwyl oreu ac arferol, a gwel pawb fod yr olwg arno yn y darlun hwn hytrach yn sur ac anfoddog. Clywais mai fel y canlyn y bu: Yr oedd ei frodyr yn y weinidogaeth, ac amryw bersonau ereill, wedi taer ac aml geisio ganddo i eistedd am ei *photo*; ond yr oeddynt oll wedi methu llwyddo er mawr siomedigaeth iddynt. Cyn rhoi fyny, meddyliwyd pe byddai

Mrs. Edwards, yr Anchor gynt, yn Nghastellnedd, yn cymmervd y gorchwyl mewn llaw, y byddai hi yn debyg o lwyddo. Yr oedd John James yn hoff iawn o'r foneddiges hon, yn nghyd a'i phriod hawddgar, a siaradai am dani bob amser fel y ddynes oreu oedd ef yn adnabod; ac yn ddiamheu, yr oedd ei serchogrwydd a'i charedigrwydd i weinidogion yr Undodiaid braidd yn ddidrai. Y mae hon, er ys rhai blynyddau bellach, yn mhlith y rhai a fu. Ceisiwyd ganddi i osod ei dylanwad ar waith, yr hyn beth ni omeddodd, ond gwyliodd am y cyfleusdra goreu i'r perwyl. Bu John James, ar y cyntaf, yn gyndyn ac anhyblyg; ond yn y diwedd, rhwng *bodd* ac *anfodd*, cydsyniodd, ac mae'r anfoddogrwydd hwn yn amlwg weledig yn y darlun. Heb Mrs. Edwards, heb y darlun.

Ganed John James yn Glynderi, ar dir Rhydybene, Llangeler, Caerfyrddin, ac, yn ol cyfrif a thystiolaeth ei fam, dydd Mercher Lludw, sef yr 20fed o Awst, 1779. Nid oes gwybodaeth o well; oblegyd, yn anffodus, yr oedd cofrestriad genedigaethau y teulu wedi myned i golli. Bedyddiwyd ef dranoeth gan beriglor y plwyf, a gallwn dybio fod ei rieni yn ofni, pan y ganed ef, na fyddai byw nemawr o amser; a chan fod marw heb fedydd yn beryglus, yn ol y dyb gyffredin, gwnawd bob brys i gyflawnu hyn o orchwyl. Beth bynag yr argoelion a'r ofnau y dydd y ganed ef, cafodd John James oes hir—dros bedwar ugain mlynedd. Dyn bychan o gorffolaeth ydoedd; ond er mai ychydig o ran pwysau a mesur oedd y defnyddiau a wnaent i fyny ei babell, yr oeddynt o'r *quality* goreu; ac os mai bychan yr olwg arno oedd ei ddyn oddiallan, yr oedd ei ddyn oddifewn yn wir fawr.

Tra thebyg nad oedd amgylchiadau ei rieni y fath fel ag y gallent fforddio i roi rhyw lawer o gynnorthwy iddo i ddringo grisiau bywyd o wasanaeth, parch, ac anrhydedd mewn cymdeithas; ond, fel y bu goreu'r modd i'r gwr bychan, yr oedd ewythr iddo o'r enw Christmas yn byw yn Henfryn, fferm ar lan Teifi, heb fod yn mhell o Glynderi, ac mewn amgylchiadau gweddol esmwyth, yr hwn a'i cymmerodd dan ei aden, ac a'i hamgeleddodd. Cafodd hyny o fanteision dysg ag oedd o fewn cyrhaedd yn ei gymmydogaeth enedigol, er nid oedd y goreu ond gwael yr amser hwnw. Trwy garedigrwydd ei ewythr, yn benaf, galluogwyd ef i fyned i Ysgol Rammadegol Castell-Hywel, yn Mhlwyf Llandyssul. Wedi myned trwy gwrs o astudiaeth ragbarotoawl yn yr ysgol enwog hon, ceisiodd am dderbyniad i fewn i Goleg Henadurol Caerfyrddin; ond gan nad oedd syniadau duwinyddol John James yn gymmeradwy gan awdurdodau y Coleg—y fath oedd eu culni, y pryd hwn—gorfu iddo droi ei wyneb i Goleg mwy rhyddfrydig yn Exeter, dan Timothy Kenrick a Joseph Bretland. Bu yn efrydydd diwyd a llwyddianus iawn yma am oddeutu dwy flynedd a hanner, a, dychwelodd i Geredigion i ymgymmeryd â'r weinidogaeth yn nghynnulleidfaoedd ieuainc Pantdefaid a Chapelgroes, a hyny, yn debygol, ar gais a than nawdd Dr. Charles Lloyd, yr hwn a gymmerai y dyddordeb mwyaf yn y cynnulleidfaoedd hyn. Yr oedd hyn tua diwedd y flwyddyn 1803, neu ddechreu 1804, a phan oedd John James oddeutu 25 oed.

Heblaw cymmeryd arno waith y weinidogaeth, agorodd Ysgol Rammadegol yn Ystrad, Dyffryn Aeron, a bu ei lafur, ar y maes hwn, yn dra llwyddiannus. Er cael ei gondemnio fel pen-heretic gan y pleidiau uniawngred mewn materion duwinyddol, etto, anfonent eu plant i'r ysgol, a gwerthfawrogent ei wasanaeth yn fawr fel ysgolfeistr; ac er fod y gyfryw alwedigaeth yn cymmeryd i fyny lawer iawn o'i amser, ac yn ei analluogi i gyflawnu ei ddyledswyddau bugeiliol fel y dymunai, etto, dichon wedi'r cyfan, i'w barch a'i ddylanwad fel ysgolfeistr fod yn foddion i 'chwanegu at ei lwyddiant yn y weinidogaeth.

Cyn ymadael yn llwyr fel gweinidog o'r cylch Undodaidd yn Ngheredigion, bu John James, dros amser byr, yn byw yn Llandyssul, ac yn cadw ysgol yno, sef o Hydref, 1815, hyd fis Mai yn y flwyddyn ganlynol. Tebyg i'w arosiad yn y lle hwn fod yn fyrach nag oedd ef wedi arfaethu ar y cyntaf. Cafodd a derbyniodd alwad i fyned i weinidogaethu yn Mhenbont ar Ogwr a'r Bettws, ac yr oedd Gellionen hefyd i fod dan ei ofal, fel yr oedd eisoes wedi bod am ryw bedwar mis ar ddeg. Ni fu yn gysurus iawn tra fu yn bugeilio y ddwy eglwys flaenaf, a rhoddodd y weinidogaeth i fyny, wedi bod yn eu gwasanaethu ond am ddwy flynedd yn unig—o Mai 26, 1816, hyd Mai 26, 1818.

Wedi deall fod John James yn bygwth ymadael o Benbont a'r Bettws, bu cynnulleidfaoedd Pantdefaid a Chapelgroes yn fawr eu dymuniad ar iddo ddychwelyd yn ol atynt hwy, yr hyn ni wnaeth, er yr ymwelai â hwynt yn achlysurol, gan gael groesawiad gwresog bob amser. John James, o Gellionen, *oedd* ef i fod mwyach, fel y cyfryw yr adnabyddid ef yn mhell ac agos; ac fel y cyfryw y bu farw ac y daeth "mewn henaint i'r bedd, fel y cyfyd ysgafn o yd yn ei amser."

Am y blynyddau cyntaf o'i weinidogaeth yn Ngellionen, bu ei fywyd iddo yn dra blin ac helbulus, a buasai wedi llwyr gwangaloni oni bai ei fod o well metel na'r cyffredin. Yr oedd yn dygwydd bod yno ddau barti croes i'w gilydd mewn barn dduwinyddol—un yn Galfiniaid, sef canlynwyr Oliver, y gweinidog blaenorol, yr hwn, er iddo ddyfod yno yn Undodwr, a lithrodd yn ol i Galfiniaeth; y llall, sef dysgyblion Josiah Rees, eu diweddar hen weinidog, a i fab a'i olynydd am fyr am er, sef Dr. Thomas Rees, oeddynt Undodiaid trwyadl a phybyr, y rhai y methodd Oliver eu gwyrdroi i gofleidio eu syniadau ei hun. Dydd Sul, y 18fed o Awst, 1816, cynnygiodd y Calfiniaid, yn debyg wrth annogaeth a than arweiniad y Parch. Daniel Evans, Mynyddbach, i gymmeryd meddiant o gapel Gellionen trwy drais; ac yn yr ymdrech hon, ymddygwyd yn dra anweddaidd mewn ty addoliad, ond bu'r ymdrech yn fethiant. (Gweler YMOFYNYDD am Gorphenaf, 1893.) Ond er methu trawsfeddiannu y capel, achosodd y cythrwfl hwn lawer o ddrwg-deimlad ac oerfelgarwch yn yr eglwys, ac yn y gymmydogaeth yn ogystal. Dan y fath amgylchiadau, gellir gwybod mai nid hapus iawn oedd bywyd y gweinidog, ac nid blodeuog iawn oedd y gynnulleidfa dan ei weinidogaeth, pan oedd yspryd ymrafael yn gwrthweithio ei ymdrechion goreu. Ond dyfalbarhaodd John James yn nghyflawniad ei ddyledswyddau fel gweinidog a bugail; a chan arfer pwyll a doethineb mawr, daeth pethau, heb fod yn faith, i drefn.

Ymadawodd y gwrthryfelwyr, a heddwch a fu mwyach yn yr eglwys, a chydymdeimlad a chydweithrediad. Daeth John James i barch cyffredinol yn y wlad oddiamgylch, nid yn unig fel pregethwr, ond hefyd fel ysgolfeistr a gwladwr. Yn y Fardre, ger Clydach, yr ymsefydlodd pan ddaeth i'r gymmydogaeth gyntaf: yma y cadwodd ysgol, ac yma y bu farw wedi treulio oes hir, lafurus, a defnyddiol, ar y 1af o Fedi, 1864, yn 85 oed. Yn ol ei ddymuniad yn ei ewyllys olaf, claddwyd ef yn Mhantdefaid, Llandyssul.

Yr oedd yn ben-ysgolhaig, yn feistr ar y Roeg a'r Lladin. Darllenai yr hen dadau yn y gwreiddiol gyda rhwyddineb mawr, a chyrchai llawer o bell ac agos i'w ysgol, er mwyn dysgu'r ieithoedd clasurol. O'r llawer a fu yn yr ysgol yn y Fardre enwaf un, sef Syr William Melbourne James *(Lord Justice of Appeal)*, oddiwrth yr hwn y derbyniodd amryw lythyron caredig o bryd i bryd. Prawf arall ei fod yn cael ei ystyried yn ysgolor gwych oedd ei appwyntio gan y Bwrdd Presbyteraidd yn Llundain, fwy nag unwaith, yn un o'r Arholwyr yn Ngholeg Caerfyrddin.

Fel duwinydd, perthynai i Ysgol Priestley, Belsham, a'r cyfryw, ac yr oedd ganddo y parch mwyaf iddynt fel dynion dysgedig, ac fel Cristionogion gonest eu barn. Canlynai hwynt, nid yn slafaidd, ond can belled ag y byddai ei ddeall da ei hun yn gallu cydsynied. Ni fu neb yn mhlith dynion yn fwy annybynol ei feddwl nag ef, ac yr oedd yn gawr mewn dadl, beth bynag fyddai'r pwnc. Yr wyf yn cofio ei glywed yn dweyd unwaith na fu erioed yn astudio rhesymeg *(logic)*; ond "cynnygied neb fy nhwyllo I," meddai; ac ail i un o ddeuddeg tasg Hercules fyddai twyllo John James, gan mor gyflym y gwelai y gau yn ymresymiad ei wrthwynebydd.

Fel gwleidyddwr (*politician*), cymmerai ddyddordeb mawr yn mhynciau'r dydd; ond ni chlymai ei hunan wrth un blaid, gan ei dylyn trwy'r trwch a'r trin. Yr oedd ganddo ei farn ei hun, a chymmeradwyai neu gwrthwynebai fesurau, yn ol fel yr oedd yn deall eu da neu eu drwg. Yn y flwyddyn 1837, bu John James ac un o'i gyfeillion goreu, sef Dr. Thomas Rees, yn gohebu â'u gilydd mewn geiriau lled bigog yn mherthynas i Gyfraith Newydd Priodi mewn capeli, a Chyfraith Newydd y Tlodion a'r *Workhouses*. Dywedai Dr. T. Rees am y flaenaf ei bod o bwys a gwerth mawr i'r Ymneillduwyr o bob enwad, yn gymmaint felly ag un ddeddf oedd wedi cael ei gosod ar y *Statute Book* er ys hanner can' mlynedd; a dywedai John James, yntau, nag oedd un ddeddf mwy drygionus wedi ei phasio yn ei gof ef. Yr un modd am Gyfraith y Tlodion. Dywedai Dr. T. Rees f of hon eisoes yn gweithio er daioni; a dywedai John James ei bod y gyfraith fwyaf Annghristionogol, gormesol, a chreulon a glywodd son am dani erioed. Galwai hi "*This monstrous Act of starvation of the poor.*"

Fel pregethwr, yr oedd John James yn rhagori yn ei ddydd. Cyfrifid ef y mwyaf ei hyawdledd a'i ddylanwad yn yr enwad. Pan fyddai cynnulleidfa, gan mwyaf o honi, wedi cael ei phregeth i hepian, os nid i drwmgwsg, gan ryw un neu ddau difywyd, ond nid disynwyr, er hyny, fyddai wedi bod yn llefaru o'i flaen, esgynai ef risiau'r ar-

eithfa, ac yna byddai pawb yn codi eu pennau, yn ymysgwyd, yn rhwbio eu llygaid, ac yn trefnu eu clustiau i wrandaw. Nid hir y byddai wedi siarad cyn y ceid gweled y bobl mewn mwynhad amlwg, yn brawf fod y pregethwr wedi gweithio ei ffordd at eu teimladau, ac wedi eu gwefreiddio â'i resymau, ac â thân ei hyawdledd, yn enwedig os y byddai yn pregethu ar dadoldeb a chariad Duw. Hwn oedd ei ddewis bwnc, ac wrth ei drafod byddai dagrau yn bwrlymu yn ei lygaid, ac yn ffrydio hyd ei ruddiau yn y man. O'r tu arall, os mai'r Drindod neu Gyfiawnder Cyfrifol, neu Boenau tragwyddol fyddai ei bwnc, byddai yn cael ei gynhyrfu gan y gwrthuni, nes weithiau yn arfer ymadroddion yn ymylu ar yr eithafol.

Nid iawn terfynu heb ddweyd gair am John James fel awdwr. Cyfansoddodd lyfrau dan y teitl: "Ymofyniad am Sylfaen i'r Athrawiaeth o Haeddiant Crist," yr hwn sydd yn *standard work* hyd heddyw; a thrueni na fyddai argraffiad newydd o hono yn cael ei gyhoeddi er mwyn pobl ieuainc ein cynnulleidfaoedd, ac hefyd er mwyn ei roi yn nwylaw rhai o'r pleidiau uniawngred. Cyfieithodd hefyd *Belsham's Calm Inquiry* i'r Gymraeg, yr hwn sydd yn llyfr gwerthfawr wrth yr enw *Ymofyniad Tawel Belsham.* Mae copïau lawer o hwn heb eu gwerthu, a gellir eu cael gan yr ysgrifenydd am 2s. yr un.

Chwefror 12, 1895. T.T.

ER COF AM MR. EVAN M. JONES, COEDMORFAWR, PENCARREG.

Mor dywyll—mor ddirgel i ddynion
  Yw troion Rhagluniaeth ein Hior!
Mae'n marchog ar frig y cymmylau,
  Ei ffyrdd sydd yn eigion y môr;
Ei ddeddf roes i'r haul a'r planedau,
  Mae'r daran a'r mellt yn ei law;
Caiff angeu—hen elyn dynoliaeth—
  Y genad oddiwrtho cyn daw.

Gwnaeth alw'n ddirybudd ar Evan
  Trwy gyfrwng y daran a'r mellt;
Ni wnaeth ond braidd cyffwrdd ein cyfaill
  Tra'n hollti y coedydd yn ddellt;
Mor hapus eu gwel'd yn y boreu
  Yn myn'd i aredig yn nghyd!
Daeth Dafydd yn fyw tuag adref,
  Ond Evan ni ddaeth ond yn fud!

Mab hoff a brawd tyner a gollwyd
  Yn nghanol ei ddyddiau'n llawn gwaith;
Mae'r tro yn rhy anhawdd ei ddeall:
  Rhaid tewi yn ngwyneb y ffaith;

'Roedd ganddo dalentau rhagorol,
Gwleidyddwr a Christion yn nghyd;
Ei fywyd oedd addurn i'r ardal:
Gwneyd da i bob un oedd ei fryd.

Nis gwelir ef mwyach yn Nghoedmor,
Na chwaith yn Mrondeifi, yn fyw,
Ond para i flaguro mae 'i lafur,
A'i ddail sydd yn wyrddlas eu lliw.
Mae'r alwad at bawb o'i gydnabod
Am gofio cael Iesu wrth law;
Ac yna doed angeu modd delo,
Gwynebwch y farn yn ddifraw.

"GALARUS,"
Sef Morgan Jones, College Street, Llanbedr.

JAPAN, EI PHOBL, EI PHROFFWYD, A'I CHREFYDD.

YN fy erthygl ar China yn rhifyn Ionawr, tud. 14 diangodd un gwall pwysig. Pum' cant o filiynau yw amcan-gyfrif poblogaeth y wlad; tra y bernir fod poblogaeth Japan yn llai na deugain miliwn, ac wele'r wlad fach, i bob ymddangosiad, yn goresgyn y wlad fawr yn mhob cyfeiriad. Y mae China yn rhy fawr ac yn rhy wasgaredig. Nid oes ynddi y teimlad o unoliaeth a ddylai fod er cadw gwlad wrth ei gilydd, ac i roddi ymwybyddiaeth o'i holl gorfforiaeth Fel y dywedodd Syr Wilfrid Lawson yn Nghaerdydd yr wythnos ddiweddaf, gall na fydd banner y wlad yn gwybod am y rhyfel, hyd nes y daw y cenadon i'w plith i adrodd yr helynt yn mhen, efallai, ugain mlynedd. Pobl yn meindio eu busnes eu hunain (mewn ystyr gyfyngedig dichon) yw y Chineaid, yn trin y tir yn ddiwyd, ac yn gofalu am fywiolaeth eu teuluoedd Nid oes yno reilffyrdd a thelegryff yn rhedeg i pob parth fel sydd gyda ni; ac felly mae yn anhawdd penderfynu pa hyd y pery y rhyfel. Yn ngeiriau Stead, "Mae cleddyf y Japanëad yn bresennol wedi trywanu China yn debyg fel y gwna cyllell drywanu cosyn sydd heb grofen digon caled i droi ei min. Mae'r pa mor ddwfn y trywana yn dybynu mwy ar hyd y gyllell nag ar allu gwrthweithiol y cosyn; a chan fod China yn ymddangos yn debyg i hen gosyn Stilton, y perygl yw yr aiff yn gandryll dan y driniaeth."

Mae Japan a'r ynysoedd cyssylltiol gymmaint arall o faint a'r Ynysoedd Prydeinig, a gorwedda i'r dwyrain i Asia, yn debyg fel y mae Prydain yn gorwedd i'r gorllewin i Ewrop. Perthyn trigolion Japan, a China, a Corea i'r un dosparth o ddynion, y Mongoliaid, ac y mae iddynt oll wareiddiad uchel o'r fath ag yw; ac y mae hwnw mewn rhai cyfeiriadau wedi effeithio er daioni ar wareiddiad Ewrop. Maent wedi gwrteithio y celfau cain hyd berffeithrwydd mawr, fel y gellir gweled oddiwrth yr enghreifftiau a gawn yn addurno siopau pob tref.

Ystyrir hwy yn bobl ddiwyd, gweithgar, ac mewn boneddigeiddrwydd yn siampl i lawer gwlad. Corea ydyw asgwrn y gynnen rhwng China a Japan, ac y mae wedi bod felly am hir amser. Mor fore ag 1100 cyn Crist dygodd un Ki-tsw wersi cyntaf gwareiddiad i Corea, a'r Coreaid hwythau a'u trosglwyddasant i Japan. Yn 1592 O.C. y bu rhyfel ofnadwy rhwng Japan a China, a gadawodd y rhyfel hwnw etifeddiaeth o ddigofaint ar ei ol nad yw wedi darfod hyd heddyw. Arllwysodd Japan ryw ddau can' mil o filwyr i Corea; a'r pryd hwnw, fel yn awr, darfu gario pobpeth o'u blaen am dymhor. O'r diwedd deffrodd y Chineaid i'r hyn oedd yn myned yn y blaen; a safasant yn llu mawr iawn wrth yr afon Yalw, gan gadw eu tir hyd derfyn y rhyfel. Tebygol fod Japan wedi bod yn darparu ar gyfer y rhyfel presennol am flynyddau. Mae wedi bod yn anfon ei phobl ieuainc i wahanol wledydd Ewrop i ddysgu pa beth bynag a allai fod o help gartref; ac y mae y rhyfel presennol yn ddangoseg pur gywir o'r modd y maent wedi dysgu celfyddyd rhyfel. Ofnwn fod John Bull a'i frodyr ar y Cyfandir yn fwy llwyddiannus i ddysgu rhyfel nag i ddysgu Cristnogaeth.

Prif grefydd Japan yw Bwdaeth, er fod yno lawer yn proffesu crefyddau ereill, a rhai yn proffesu Cristnogaeth. Wele air am y proffwyd mawr

GOWTAMA BWDA.

Ganwyd Gowtama tua 500 cyn Crist, pan oedd ei fam tua 45 oed. Ganwyd ef yn annysgwyliadwy oddicartref, ac yn mhen saith diwrnod bu y fam farw, a chafodd y bachgen ei fodryb, chwaer ei fam, i gymmeryd lle mam iddo. Megys am ereill a gawsant enwogrwydd yn ol llaw, adroddir llawer hanesyn rhyfeddol am dano yntau, am ei enedigaeth goruwchnaturiol, ei ddoethineb a'i allu hwnt i bawb ereill. Dengys yr hanesynau yma yspryd yr oes yn yr hon y cawsant eu bodolaeth. Tybir iddo briodi yn ieuanc â'i gyfnither; a cheir achwyniadau ei fod yn esgeuluso ar arferion angenrheidiol ar gyfer rhyfel. Clywodd Gowtama am yr achwyniadau, a phenododd ddydd trwy gurlad y tabwrdd ar yr hwn y buasai yn profi ei feistrolaeth o'r deuddeg celfyddyd yn erbyn pawb ereill. Trwy hyny yr ennillodd yn ol feddwl da ei gymmydogion. Yn 29 oed, gadawodd gartref i ymgyflwyno at athroniaeth. Y rheswm am hyn oedd, i angel ymddangos iddo mewn pedair gweledigaeth, (1) dan ffurf dyn wedi ei dori i lawr gan henaint, (2) dyn claf, (3) corff adfeiliedig, (4) a meudwy urddasol Deng mlynedd wedi priodi ganwyd mab iddo. Peri gofid wnaeth hyny iddo. Ofnai y byddai yn rhwymyn i'r byd ac yn rhy gryf i'w dori "Ond," meddai, "dyma rwymyn newydd a chryf y bydd yn rhaid i mi ei dori," a dychwelodd adref yn drist.

Yr oedd pynciau dyfnion athroniaeth wedi cael sylw manwl cyn amser Gwatama, ac yr oedd gwahanol ysgolion—ryw chwech—yn bodoli; ac nis gellir amheu nad oedd efe, fel ereill fwy neu lai, yn greadur ei amser. Cyn hir ymneilldnodd i anialwch Wrwfela, lle y

treuliodd ryw chwe' mlynedd yn myfyrio ac yn ymprydio. Un dydd pan allan yn araf rodiana, syrthiodd mewn llewyg, a thybid ei fod wedi marw; ond adfywiodd drachefn, a dechreuodd gymmeryd bwyd. Ar yr adeg hono, pan oedd arno fwyaf o angen cydymdeimlad, cefnodd ei gyfeillion arno. Tybient hwy fod concwest meddyliol i'w sicrhau trwy ddarostyngiad y corff, a pheidio bwyta.

Daeth arno ail ymdrech. Desgrifir ef fel hyn: "Pan ddechreuodd yr ymdrech cydrhwng Iachawdwr y byd a Thywysog y Drwg, syrthiodd myrddiwn o ser; cuddiodd cymmylau a thywyllwch y ffurfafen. A'r ddaear, gyda'i moroedd a'i mynyddau, er yn anymwybodol, a grynodd fel pe byddai yn gwybod ac yn teimlo, yn debyg i briodferch yn cael ei symmud yn groes i'w hewyllys oddiwrth ei phriodfab, neu yn debyg i gangen y winwydden yn siglo yn mreichiau y corwynt. Cododd y môr mawr megys dan ddylanwad daeargryn, afonydd a ddychwelasant at eu ffynnonau; a chribau'r mynyddoedd, lle'r oedd fforestydd afrifed wedi tyfu am oesoedd, a dreiglasant yn faluriedig i'r dyffryn islaw; ystorom ffyrnig a chwyrnai oddiamgylch, ac yr oedd rhu yr ymdarawiad yn ofnadwy, yr haul ei hun a ymguddiodd mewn tywyllwch dudew ofnadwy, a llu o ysprydion heb ganddynt benau a lanwasant yr awyr."

Yn fuan wedi i'w gyfeillion gefnu arno, crwydrodd at lan yr afon Nairanjara, ac eisteddodd i fwyta dan gysgod pren mawr, a adwaenid yn ol llaw fel pren Doethineb (y Bo-tree sanctaidd). Yma yr arosodd trwy oriau hirion y dydd yn ymddadleu â'i hun beth wnelai nesaf. Dechreuodd amheu ei hen athroniaeth, ac nid oedd penydiau yn dwyn dim boddlonrwydd, dim heddwch; a'i demtasiynau, yr oeddynt yn dychwelyd gyda nerth adnewyddol. Yr oedd er ys blynyddau wedi edrych ar bob da daearol megys gwagedd—diffrwyth a diflanol. Tybiai y cynnwysent hadau drwg, a bod yn rhaid yn gynar neu yn ddiweddar, iddynt gynnyrchu ffrwyth chwerw. Ond yn awr dechreuodd y wawr dori arno. Dechreuodd melusderau cariad a chartref, swynion cyfoeth a gallu, ddysgleirio etto mewn lliwiau swynol gerbron llygad ffydd. Yr oeddynt o fewn cyrhaedd iddo, cawsai roesaw yn ol, ond—a fyddai boddlonrwydd hyd yn od wedi'n? A oedd ei holl lafur i fyned i golli? Ai nid oedd yn rhywle sail sicr i sefyll arno? Felly yr ymorchestai gyda'i amheuon o fore hyd yr hwyr; ond ar derfyn y dydd yr oedd ochr grefyddol ei natur wedi ennill y fuddugoliaeth—ei amheuon wedi diflanu, ac yntau wedi myned yn Bwda—hyny yw, yn un goleuedig, un yn gwybod. Credai ei fod wedi cael gafael ar esponiad dirgelwch mawr tristwch, ac wedi dysgu ar yr un pryd yr achos a'r feddyginiaeth o hono. Tybiai ei fod wedi cyrhaedd hafan tangnefedd; ac yn y gallu oedd gan gwrtaeth mewnol ar galon dyn, ac yn y cariad at ereill, y gallai orphwys ar sicrwydd nas gellid byth mwy ei siglo.

Ebe Brahman wrtho, "Sut y mae'n dygwydd fod dy ffurf mor berffaith, dy wynebpryd mor brydferth, a'th ymddangosiad mor dangnefeddus? Pa grefydd sydd wedi rhoddi iti y fath lawenydd a'r fath dangnefedd?" Atebodd yntau ei fod wedi gorchfygu dylanwadau'r

byd, a'i anwybodaeth a'i bechod a'i chwant. Yna gofynodd y Brahman etto, "I ba le 'rwyt ti'n myn'd, ac i beth ?" Atebodd yntau,

"Yr wyf yn awr yn dymuno troi olwyn y Ddeddf,
Ac i hyn yr wyf yn myned i Benares
I roddi goleuni i'r rhai ydynt yn gorwedd mewn tywyllwch,
Ac i agor porth Anfarwoldeb i ddynion."

Gan y bwriadwn ddychwelyd at y pwnc hwn mewn rhifyn dyfodol, rhaid gadael allan lawer o bethau pwysig a dyddorol yn bresennol; ond wele egwyddorion sylfaenol crefydd Bwda, y rhai a elwir

Y PEDWAR GWIRIONEDD.

1. Mae pob bodolaeth yn ddrwg, am fod pob bodolaeth yn agored i gyfnewidiad a darfodedigaeth.
2. Ffynnonell y drwg hwn yw y chwant am beth sydd i gyfnewid a diflanu.
3. Nid yw y chwant hwn, a'r drwg sydd yn ei ganlyn, yn annochel-adwy; oblegyd, os dewiswn, gallwn gyrhaedd Nirvana, pan y derfydd y ddau yn hollol.
4. Y mae cynllun sicr a sefydlog, yr hwn os dylynwn ef, a'n galluoga i gyrhaedd yr amcan hwn, heb yn bossibl fethu.

Dyma'r pedwar gwirionedd sydd wrth sail y gyfundrefn, sef (1) y drwg, (2) ei achos, (3) ei ddiwedd, (4) a'r modd i gyrhaedd y diwedd.

Ac wele yn canlyn wyth egwyddor y llwybr hwn, sef y Llwybr Canol:—

1. Iawn grediniaeth, neu ffydd gywir.
2. Iawn farn, neu'r cyflead doeth o'r ffydd hono at fywyd.
3. Iawn ymadroddiad, neu berffaith wirionedd yn yr oll a ddywedwn ac a wnawn.
4 Iawn annogaethau neu gymhellyddion, ceisio yn wastad amcan a bwriad iawn.
5. Iawn alwedigaeth, neu fod y bywyd allanol heb fod yn cario pechod gydag ef.
6. Iawn ufudd-dod, neu ymostyngiad ffyddlon i ddyledswydd.
7. Iawn gof, neu adgof priodol o ymddygiad yn y gorphenol.
8. Iawn fyfyrfod, neu gadw y meddwl yn sefydlog ar wirionedd parhaol.

DAMMEG YR HEDYN MWSTARD.

Yr oedd merch ieuanc o'r enw Kisagotami, yr hon a briododd â dyn ieuanc cyfoethog. Cafodd un plentyn, ond pan ddaeth y plentyn prydferth i allu cerdded ei hunan, efe a fu farw. Y wraig ieuanc, yn ei chariad tuag ato, a gariai y plentyn marw gyda hi yn ei ffedog i bob man, gan fyned o dy i dy yn mhlith ei cheraint, a cheisio am feddyginiaeth i'w wellhau. Un cyfaill yn meddwl nad oedd yn deall, a ddywedodd, "Fy mhlentyn anwyl, nid oes genyf fi ddim meddygin-

iaeth o'r fath a geisiwch, ond credaf y gwn am un ag y mae ganddo." "O, dywedwch imi, pwy ydyw," ebe Kisagotami. "Gall y Bwda roddi i chwi feddyginiaeth, ewch ato ef." Aeth at Gowtama, ac wedi talu gwarogaeth, hi a ddywedodd, "Athraw da, a wyddoch am ryw feddyginiaeth fydd o les i fy mhlentyn?" "Gwn am un," ebe yntau. Yn awr yr oedd yn arferiad i'r cleifion i ddarparu y llysiau gofynol gan y meddyg, felly gofynid pa rai oeddynt. "Rhaid i mi gael had mwstard," meddai, "a rhaid i mi eu cael o dy lle nad oes nâ thad nâ mam, nâ phriod nâ phlentyn wedi marw." "O'r goreu," ebe hithau, a ffwrdd a hi, yn cario'r plentyn marw gyda hi. A dywedai'r bobl, "Hwriwch, dyma had mwstard, cymmerwch hwy." Ond pan ofynai, "A oes mab neu ferch, &c., wedi marw yma?" Atebent, "Beth? Beth yw hyn a ddywedwch? Ychydig yw y byw, a'r meirw yn llawer." Yna aethai i dai ereill, a dywedai un, "Collais fab," ac arall, "Collasom ein rhieni." O'r diwedd, wedi methu cael un ty o'r fath oedd hi am, daeth ei meddwl yn glir, ac wedi ymgalonogi, gadawodd gorff marw y plentyn mewn gallt, a dychwelodd at y Bwda, gan dalu gwarogaeth iddo. Dywedodd yntau, "Gawsoch chwi'r had mwstard?" "Fy athraw," ebe hithau, "naddo. Dywed y bobl fod y byw yn ychydig, y meirw yn llawer." Yna efe a ymddyddanodd â hi yn nghylch pethau sylweddol ac ansefydlogrwydd pobpeth, nes i'w hamheuon ddiflanu, a chan dderbyn ei thynged, aeth yn ddysgybl, a chychwynodd ar y Llwybr Cyntaf.

DAMMEG YR HAUWR.

Brahman cyfoethog o'r enw Bharadvaja oedd yn cynnal gwyl cynauaf pan ddaeth yr athraw, ac a safodd gerbron â'i ffiol yn ei law. Aeth rhai i fyny ato, gan dalu iddo warogaeth; a'r Brahman a ddigiodd ac a ddywedodd, "Sramana, yr wyf yn aredig ac yn hau, ac wedi aredig a hau, yr wyf yn bwyta; byddai gwell petaech chwithau yn gyffelyb yn aredig ac yn hau, ac yna byddai genych fwyd i'w fwyta."

"O, Brahman!" oedd yr ateb, "yr wyf finau hefyd yn aredig ac yn hau, ac wedi aredig a hau, yr wyf yn bwyta."

"Dywedwch eich bod yn amaethwr; ond nis gwelwn un arwydd o hyny," meddai'r Brahman. "Pa le mae eich ychain, a'ch had, a'ch aradr."

Yna, meddai'r athraw, "Ffydd yw yr had a hauaf, a gweithred-oedd ydynt fel y gwlaw yn ei feithrin; doethineb a gwyleidd-dra ydynt ranau o'r aradr, a fy meddwl yw y ffrwyn arweiniol. Yr wyf yn gosod fy hun ar drontol y Ddeddf; difrifoldeb yw y swmbwl a ddef-nyddiaf; a diwydrwydd yw yr ych sydd genyf i dynu. Felly mae yr arddwr hwn yn aredig, gan ddinystrio chwyn twyll. Y cynauaf a gynnyrcha yw ffrwyth ambrosiaidd Nirvana, a thrwy'r aredig yma y terfynir pob tristwch."

Un o nodweddion gwahaniaethol Bwdaeth yw yr yspryd Cenadol. Ni cheir ei gyffelyb yn un o'r hen grefyddau, hyd amser Crist. Ni

cheisiodd Confucius ddychweledigion y tuallan i China; ni aeth Brahmaniaeth allan o India; cyfyngwyd crefydd Zoroaster i Persia; a chrefydd yr Aifft i ddyffryn y Nilws; a chrefydd Groeg i'r Groegwyr. Ond tanwyd y Bwdyddion â'r awydd i ddwyn holl ddynolryw i adnabyddiaeth o'u gwirioneddau hwy. Aeth lluoedd o genadon allan i Nepaul, i Thibet, Burmah, Ceylon, China, Siam, a Japan; ac yn yr holl leoedd hyn y mae monachdai y Bwda yn ffynnonau gwybodaeth ac yn ganolbwynt addysg i'r bobl. Ofer cyfrif y fath grefydd yn mhlith yr ofergoelion sydd yn darostwng dynolryw. Gorwedda ei gallu yn nerth yr argyhoeddiad gyda'r hwn yr ysprydolai ei hathrawon; ac yr oedd drachefn wedi deilliaw oddiwrth rhyw olwg ar wirioneddau, ac nid oddiwrth gred mewn cyfeiliornad.

RHIF CYMHAROL Y GWAHANOL GREFYDDAU.

Parsiaid	150,000	
Séics *(Sikhs)*	1,200,000	
Iuddewon	7,000,000	—½ y cant o'r oll.
Eglwys Roeg	75,000,000	—tua 6 y cant.
,, Rhufain	152,000,000	—tua 12 ,,
Cristnogion ereill	100,000,000	—tua 8 ,,
Hindwaid	162,000,000	—tua 13 ,,
Mohammetaniaid	155,000,000	—tua 12½ ,,
Bwdyddion	500,000,000	—tua 40 ,,
Ereill	100,000,000	—tua 8 ,,
Cyfanswm	1,252,350,000	

Ionawr, 22*n*. T.C.U.

PRYDAIN FAWR.

Gwlad Rhyddid yw Prydain, a mirain em moroedd,
Hi daria yn iesin yn ben holl deyrnasoedd;
Yr eigion a'i donau yw muriau eu mawredd,
O ogylch yr Ynys, lliw gwyngalch eirianwedd;
Crochruo a dotio, crych chwareu o'i deutu,
Wna'r môr mawr murmurawl, a'i swynawl gysanu;
Dan hyfryd wên heulwen cofleidia'i anwylyd,
A'i hoen yn ddadhuddol, a'i wŷn yn ddedwyddyd;
Y hi yw ei feistres—ei llynges a'i llongau
Yn nwyfus a'i nofiant, adwaenant ei donau;
Castelli o haiarn yn gadarn a gwiwdeg
Anwylant ei wyneb, a hwyliant ei waneg,
I noddi yr Ynys a'i nwyddau arianol,
A nerth a chadernid gwir Ryddid gwiwraddol.

John Jones (Talhaiarn).

Y FERCH, Y WRAIG, Y FAM.

"If we wish to know the political and moral condition of a state, we must ask what rank women hold in it," meddai Martin. Yn ngwyneb geiriad sydd mor eglur a chadarn â'r uchod, gellir yn hawdd canfod cylchoedd eang o wasanaeth i'r rhyw fenywaidd. Yn araf, ond yn dra sicr, y deuir i gydnabod eu hawl i'r llwyfan gwleidyddol, ond y mae ymroddiad diflino llawer o honynt trwy y blynyddoedd wedi cael dylanwad mawr ar werin Cymru a'r gwledydd cylchynol, nes mae y rhagfarn fodolai gynt yn eu herbyn heddyw yn troi yn gymmeradwyaeth wresog iddynt.

Tri gair swyngyfareddol ydyw y Ferch, y Wraig, y Fam. O'i hamgylch y chwery holl dannau dedwyddwch dyn, ac nis gall lanw cylch bodolaeth yn iawn heb fod gan un o wrthddrychau yr ysgrif law yn ffurfiad ei gymmeriad.

Y Ferch.—Cynniweiria llygad y ferch ieuanc i gonglau pellaf a thywyllaf y galon ddynol; a chael bod dan ei mantell hi ydyw prif orchwyl a nod llawer llanc. Aberthir llawer er ei mwyn. Dygir allan yr awen yn ei gwisg wen i garoli iddi hi, a phortreadir hyn a'r llall er cael ei llaw a'i chalon. Onid yw ei dylanwad yn bellgyrhaeddol ar ddosparth pwysig yn ein gwlad—dosparth ag y mae dyfodol y Dywysogaeth yn ymddybynu ar eu hymarweddiad yn ein dyddiau ni? Ar ei llaw hi y gorphwysa'r gorchwyl pwysig o droi cwrs bywyd bachgen nwydwyllt rhag iddo fyned yn unionsyth i ddystryw. Pe byddai i wyryfon Cymru ond codi gyda'u gilydd yn erbyn pechodau rhyfygus y wlad, buan y ceffid eu gweled yn gwywo, ac yn diflanu o'r tir. Pa hyd —O pa hyd y bydd genethod fy ngwlad heb ddeffro i'w dyledswyddau, a hwythau gan yr Efengyl wedi eu codi mor uchel i sefyllfaoedd mor anrhydeddus ac urddasol?

Y Wraig.—Pwy na fu yn gwrando ar gynghor ei wraig dan ddylanwad lletnol amgylchiadau? Nid oes neb a rydd y fath gysuron iddo â chymhar ei fywyd. "Ymgeledd gymhwys" yw y term Beiblaidd am dani, ac ni fu dim erioed o fwy o fendith i ddyn. Mae bywyd yn rhy brysur, a'i ysgogiadau yn rhy chwyrn, i ddyn ymdaflu i'w ganol heb iddo gael ei ireiddio â dyferynau gwlithog ei wraig i'w gynnorthwyo. Gwir fod dynion enwog wedi gwneyd gwrhydri heb fod eu gwragedd yn un cynnorthwy iddynt, ond yn hytrach i'r gwrthwyneb; ond eithriadau ydynt. Y rheol sydd o Ddwyfol osodiad, ac yn cyrhaedd yr amcanion goreu er lles dyn. Yn wir, toddir llawer o galongaledwch y byd, yn grefyddol ac yn wleidyddol, gan y wraig yn nghymdeithas dawel ei gwr. Brawddegau cynnwysfawr a chysurlawn hon sydd yn gyru ei bryder ar ffo; a phan fyddo tymhestloedd yn rhuo o'i hamgylch, bydd hithau ar ei heithaf yn ceisio dal ei lestr rhag suddo. Yn ei ofid pwy a'i cysura? Yn ei gystudd pwy a'i dyddana? Yn ei bla pwy ddaw i'w lanhau? Try oriau unig a thrymaidd y nos heibio yn ei chwmni dyfyr heb yn wybod iddo ei hun, a dawnsia gwenau gwanwynol bywyd ar ei ruddiau, a phelydra iechyd o'i lygaid yn ffrwyth gofal a serch ei wraig.

Y FAM.—Pwy na fu dan ddylanwad ei fam? Dywediadau mynych y fam yn nghlyw y plant sydd yn mapio allan eu llwybrau trwy daith bywyd. Troion sydd ynddynt eu hunain yn ddibwys o amgylch carreg yr aelwyd wnant ddyfodol y rhai bach yn eglur. Y mae oes gyfan yn troi megys ar gledr llaw y fam. Dyma'r man y tardd y ffynnon sydd â'i dyfroedd gloewon yn tori iddi ei hun gwrs trwy anialdir a chreigiau. Yma y cymhwysir dyn i frwydro ag amgylchiadau, i lanw cylchoedd pwysig yn wladol ac eglwysig, i rodiad addas, ac i droi mewn cwmni urddasol. Mae enwogion y byd yn ddyledus i'r fam. Argraffwyd ei hymadroddion ar lech lân cof yr hogyn, ac ni ddilëir hwynt tan ddydd y farn. Ymlidid holl draha'r byd pe ceffid mamau wedi eu trwytho yn dda mewn moesoldeb a chrefydd, a chodid cymdeithas yn mhob gwedd arni pe ceffid y fam i dir priodol.

"Fair womankind!
It's they that nourish the immortal mind."—*Hogg.*

Mae'r moesau i gyd yn llaw y fam. Mae rhoddi bwyd priodol i'r meddwl plentynaidd wedi ei ymddiried iddi hi. Onid oes ar ei hysgwyddau gyfrifoldeb mawr? Oes, ac mae caulyniadau difrifol yn sicr o ddyfod yn hwyr neu yn hwyrach.

"Nis gall dyn daflu dirmyg arno ei hun heb iddo gyda llaw bardduo ei hunan," medd un awdwr, ac nis gellir codi menywod heb fod dynoliaeth yn codi gyda hwy. Nid ydym yn sicr fod neb o honynt hyd yn hyn yn iawnbrisio eu hunain yn y gwledydd Dwyreiniol: trinir y rhyw fenywaidd megys caethion. Nid yw gwareiddiad wedi cael lle i osod ei droed i lawr yno, ond yma gyda ni prysur ddringant risiau enwogrwydd. Mae eu cyfrifoldeb yn ychwanegu hefyd, a chlywir eu lleisiau oddiar fanloriau dirif braidd. Rhodder yr un manteision addysg iddynt hwy ag i'r gwrrywod, fel yr hyrwydder rhinwedd a moes.

Cefncoed. CASWALLON.

ER COF AM Y DIWEDDAR DAVID JONES, CASTELL, PENCARREG.

D. JONES, Castell Elwyn! dyn da—roddwyd
Tan y briddell yma;
'Rol gwel'd wythdeg hirdeg Ha',
I'w therfyn daeth ei yrfa.

Gwr wnai i bawb ei garu,—a didwyll
Undodwr anwylgu;
Am un â'r gwan i gyfranu
Nid oedd gwell Jones y Castell cu.

D. O. JENKINS.

CENADWRI UNDODIAETH YN NGHYMRU.

Nis gall neb ddweyd fod gorphenol Undodiaeth yn Nghymru wedi bod yn un llewyrchus. Mae ei chynnydd—i'r olwg allanol fodd bynag—wedi bod yn araf; ychydig o ymdrech sydd wedi ei wneyd i ledaenu ein syniadau; a hawdd y credwn, pe bai Paul ac apostolion ereill Cristionogaeth yn yr oesau cyntaf wedi bod mor ddifraw yn nghylch lledaeniad y grefydd newydd, na fuasai Cristionogaeth mor adnabyddus heddyw ag y mae.

Ond er mai difrawder sydd yn nodweddu ein hanes gorphenol yn benaf, mae arwyddion ein bod yn dechreu dihuno, ac yn dechreu teimlo ein dyledswydd i wneyd rhagor dros ledaeniad ein hegwyddorion ardderchog. Efallai mai gwan yw'r deffroad etto, ac nad yw yn ddigon cryf a nerthol i beru i ni wneyd llawer o aberth yn y gwaith; ond mae y ffaith fod tipyn yn rhagor o fywyd ac o sêl yn dechreu dod i'r golwg yn ein plith yn arwydd calonogol iawn.

Mae'n anhawdd gwybod i ba beth y gellir priodoli'r difrawder hwn sydd mor nodweddiadol o honom fel Undodiaid. Os bu crefydd erioed yn werth ymdrechu o'i phlaid ac aberthu er ei lledaenu, mae y grefydd a elwir genym ni yn Undodiaeth yn werth ymdrechu ac aberthu er ei mwyn. Dywed rhai fod Undodiaeth yn grefydd oer; yn wir, nid wyf yn sicr na cheir ambell Undodwr yn barod i ddweyd hyn. Pe dywedid fod Undodiaid yn oer, byddid yn agosach i le. Ond nid yw Undodiaeth yn oer. Hanfod Undodiaeth yw cred yn Nhadoldeb Duw, brawdoldeb dyn, crefydd bur—cariad at Dduw a dyn; mewn gair, dysg Undodiaeth mai cariad yw gwreiddyn y cwbl. A gellir gofyn, A ydyw cariad yn oer? A oes rhywbeth a all wresogi a chynneu tân yn y galon ddynol yn fwy? Cyn y gall neb ddweyd fod Undodiaeth yn oer, rhaid priodoli'r oerfelgarwch i ryw ddiffyg ar ein rhan ni ein hunain—ein diffyg ffydd yn yr egwyddorion a broffeswn, efallai.

Ond mae yn bryd i ni, fel Undodiaid, ddihuno. Mae'r gwaith ag y maent wedi ei esgeuluso mor fawr heb ei wneyd etto, ac y mae galw am ei wneyd; a chredwn nad yw r amser yn mhell pryd y bydd ein hymdrechion dros ledaeniad ein hegwyddorion yn Nghymru yn deilwng o honom.

Yn mha gyfeiriad y gorphwysa maes llafur Undodiaeth yn Nghymru? Mae Cymru yn wlad grefyddol. Mae ei chapeli a'i heglwysi yn britho ei bryniau a'i dyffrynoedd, a phob Sul, heb son am achlysuron ereill, mae ei phlant yn tyru iddynt o bob cyfeiriad. A phwy all ddesgrifio yn gywir faint mae crefydd wedi wneyd dros Gymru? Pa wlad sydd yn mhlith y gwledydd mor wyn ei chymmeriad à Chymru—mor rhydd oddiwrth lygredigaethau? Ni ddywedwn fod Cymru yn berffaith, o herwydd nid yw felly; ond dywedwn hyn nad oes un wlad heddyw yn uwch ei moesau nâ Chymru, a dywedwn yn mhellach mai ei chrefydd sydd wedi ei dwyn i'r cyflwr hwn. Mae ein mynwes yn gwresogi gan dân serch ac anwyldeb at hen wroniaid crefyddol yr oesau a fuont yn gystal ag eiddo'r oes bresennol, y rhai a gyssegrasant eu bywydau yn

ngwir ystyr y gair i godi'r hen wlad i'r safle y mae ynddo yn bresennol. Ond tra yn cydnabod hyn oll, dywedwn ar yr un pryd nad yw crefydd Cymru yr hyn y dylai fod, na'r hyn hefyd a fydd ryw ddydd. Mae yn gymmysgedig â hi lawer o us—llawer o syniadau afresymol ac ofergoelus. Mae llawer o bethau yn cael eu galw yn grefydd nad oes a fynont â chrefydd.

Ein gwaith ni yn Nghymru, gan hyny, yw dwyn syniadau gwell nâ'r syniadau a gredir yn awr i sylw ein cydgenedl. Credwn ni nad yw y ffurf o grefydd a bregethir heddyw gan yr enwadau iawnffyddol i ddal ei thir. Cadarnheir y gred hon o'r eiddom gan lawer o arwyddion yr amserau presennol; a'r pwnc ddylem ni yn ddifrifol ei ystyried yw, a ydym ni yn *credu* fod genym ni rywbeth gwell i'w gynnyg yn ei lle. Blinir llawer gan y ffaith nad ydym, fel enwad, yn gwneyd llawer o gynnydd. Ychydig yw ein capeli newyddion, ac nid yw y capeli sydd genym yn orlewyrchus; ond be' waeth os bydd ein syniadau yn lledaenu y tu allan i gylch ein henwad. Efallai y dylid gwneyd ymdrech i sefydlu achosion newyddion yn mbob man y tybiwn fod unrhyw obaith am lwyddiant; ond nid yn ol nifer ein capeli y dylem farnu ein llwyddiant. Nid ydym yn credu y deuwn yn gryf, fel enwad, yn y cyfeiriad hwn; ac nid yn y cyfeiriad hwn y dylem ymdrechu yn benaf. Mae digon o gapeli ac eglwysi yn Nghymru, ac ni fuasai ond gwastraff ar arian ac amser i ychwanegu atynt, oddieithr mewn lleoedd neilldual. Ond dylem wneyd pob ymdrech i ddwyn ein syniadau am grefydd i sylw'r bobl yn gyffredinol, a gwneyd hyn trwy bob moddion dichonadwy, fel ag i drwytho meddyliau y Cymry ieuainc â'r syniadau hyn. Dyma yw ein gwaith yn Nghymru. Hyd yn hyn mae rhagfarn wedi bod yn rhwystr i'n cynnydd, ac y mae rhagfarn yn ffrwyth anwybodaeth. Yn awr, pan y mae anwybodaeth yn diflanu, a gwybodaeth yn dod yn gyffredinol, a'r do ieuanc yn dechreu darllen a meddwl drostynt eu hunain, daw ein llwybr yn fwy rhydd a'n gwaith yn fwy hawdd.

PHILOS.

NODYNAU GWASGAROG.

SISIAL YN IAITH Y SAESON.

Mewn blwch o lythyrenau argraffydd (*type fount*), ceir tua'r un nifer o'r llythyren "e" yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhyw 12 mil; ac o'r llythyren "a" tua'r un cymmaint, rhyw 10 mil; ond sylwer, fe geir yn y Saesneg o'r sain "s" ryw 8 mil, tra ni cheir yn y Gymraeg ond rhyw bedwar cant. Nid rhyfedd fod prif gantores Cymru yn ei ystyried "yn anfeidrol mwy anhawdd" i ganu baled Saesneg nag un Gymraeg, gan fod cymmaint yn rhagor yn ofynol o iaith y Sarff a hudodd Efa.

Mae Syr Robert Ball, yr hwn yw prif Seryddwr y dydd, wedi dyfod i'r casgliad, ar ol rhoddi hir sylw i'r pwnc, mai rhyw bedwar neu bum

miliwn, neu o bellaf ddeg miliwn o flynyddau yn rhagor, y bydd y ddaear yn alluog i gynnal unrhyw fath o fywyd. Yr wyf yn falch fod y pwnc wedi ei benderfynu o'r diwedd, gan ei fod yn rhoddi cyfleusdra i'r wraig a'r plant a minau i godi ein pac ac ymadael cyn delo y diwedd.

S.N.S.

I'R YSGOLFEISTR—BUDDUGOL.

Gwr o gyrhaedd go ragorol—yw'r dewr
A'r doeth Athraw Ysgol;
Ar blant mâd fe âd ei ol,
A'r oes oleua'n rasol.

DEWI HEFIN.

DUWINYDDIAETH DDIWEDDAR.

Etholedigaeth a Gwrthodedigaeth, mae'n burion, ac felly'n y bla'n;
Ond'r wy' heno'n myn'd at fy machgen, ac ni chaf ef yn uffern dân.
Caraswn fy machgen gymmaint fel gwenodd fy Nhad o'r ne';
Caf fod gyda Wily'n ddedwydd, ond nis gwn I ddim pa le.
Ai colledig yw Wily, a'i f' achub I yw dy gais, fy ffrynd?
Beth waeth am fy enaid I, os i'r tân mae efe wedi myn'd.
Bum gyda Duw'n y tywyllwch, dos ffwrdd a gad lonydd i mi;
Ni fu genyt blentyn erioed, mor galed a'r garreg wyt ti!

T——N.

CYNNORTHWYON DYDDIOL I FYWYD UCHEL.

Sul: Mae ysprvd perffaith yn dwyn corff perffaith, ac y mae'r ddau yn anhebgorol i'r dyn perffaith. *Llun*: Nid yw pob peth yr ydym yn ymwybodol o hono ond yn unig meddwl wedi ei wneuthur yn weledig. *Mawrth*: Gwaith a gydgyfranogir ynddo gan gyfeillgarwch pur a lles cyffredin yn cario gydag ef ffrwyth deublyg. *Mercher*: Safle priodol dyn yn mhlith y dealltwriaethau creedig yw y nesaf at yr Anfeidrol. *Iau*: Ni ddaw y cyflwr caboledig (*polished*), nac i'r gem nac i'r dyn trwy orwedd yn gauedig mewn cwdyn gwlanen. *Gwener*: Mae yr hwn a geidw ei air yn gywir ac yn ffyddlawn yn drech na sylfaenydd dinas-oedd. *Sadwrn*: Nid oes dim yn anmhossibl y dichon meddwl afaelu ynddo, a deall ei amgyffred.

BETH YW UNDODIAD?

Dywedwch, beth yw Undodiad—i mi?
Amheuaf gollfarniad
A glywais, a'i ddrwg-liwiad,
Fel dyn, mai'r diafol ei dad!

Clydach Vale. GWILYM CURWEN.

Mr. Gol.,—Nid wyf wedi eich blino er ys llawer dydd bellach; ond yr wyf y tro hwn yn dymuno am ychydig bach o ofod. Da genyf hyspysu ein bod ni, fel Undodiaid, yn Nghwm Clydach, yn dal ein tir yn dda hyd yn hyn, a chredaf nad oes yn ein plith ond gwenith pur, a hwnw wedi ei nithio yn lân oddiwrth us iawnffyddiaeth. Yr ydym yn ddiolchgar iawn i Dr. Griffiths am y pregethwr y mae wedi ddanfon i draddodi newyddion da'r Efengyl, sef y Parch. Ifor Davies. Yr wyf yn meddwl y gallaf ddweyd dros bawb sydd yma ein bod yn llwyr foddlon arno, ac yn ddiolchgar am dano. Mae ganddo fwyd a diod bob amser i'r newynog a'r sychedig. Cawsom bregeth ardderchog ganddo y Sabboth cyntaf yn y flwyddyn ar Matt. xxv. 6, 13. Er fod yr hin yn oer iawn a ninau mewn lle oer yn eistedd, cawsom wledd i'n heneidiau, ac eglur oedd fod pob un yn derbyn maeth i'w yspryd.

Da genyf eich hyspysu hefyd, Mr. Gol., ein bod yn bwriadu adeiladu lle i ni ein hunain i addoli yr unig wir a'r bywiol Dduw. Yr ydym wedi prynu ty mawr a digon o dir yn agos iddi er adeiladu ty o waith llaw, a gobeithiaf yr adeiladwn ni dai ynddo nid o waith llaw, ond tragwyddol eu parhad.

Y nos Lun canlynol yr oedd cyfarfod pregethu gyda'r Annybynwyr ar Donypandy, ac ês yno. Yn wir, Mr. Gol., yr oeddwn yn ddiolchgar iawn am Undodiaeth wrth wrando pregeth yno ar Ruf. viii. 31: yr oedd y bregeth i gyd ar etholedigaeth, cyfiawnhad, a sancteiddhad—un o'r hen bregethau a arferid draddodi gan y Methodistiaid hanner can' mlynedd yn ol.

J.J.T.

Y BEILI.

(*Buddugol yn Eisteddfod Aberaeron Awst*, 1893.

Gwas i ddeddf gyda "gwys" ddaw—yw Beili—
Heb olwg dda arnaw;
Nerthol lys yn gefn wrth law—
Dan w'radwydd gwlad yn rhodiaw.

Clydach Vale. Gwilym Curwen.

LLYFR EMYNAU AT WASANAETH YR YSGOL SUL.

Da genym ddeall fod y gohebydd ffyddlon a'r gweinidog gweithgar, "R.J.J.," wedi parotoi llyfr emynau newydd at wasanaeth ein Hysgolion Sul. Prin mae eisieu dweyd wrth neb sydd yn adwaen Mr. Jones y bydd y casgliad newydd hwn o emynau i'n pobl ieuainc yn bobpeth ag a ellid ei ddymuno. Gwybodaeth eang o emynyddiaeth Cymru, chwaeth ardderchog i dduethol, a phrofiad ar y maes hwn o'r blaen, ydynt yn sicr o fod yn warant na cha neb ei siomi yn y casgliad. Yr ydym yn deall fod y llyfr yn barod i'r wasg, ac yr ydym

yn gobeithio y ca gefnogaeth galonog gan ein holl eglwysi. Danfoner pob archebion at y Golygydd i Aberdar.

MOESGYFARCHIADAU YN MHLITH YR IUDDEWON.

Megys gyda ni, felly gyda'r Iuddewon, yr oedd y moesgyfarchiadau cyffredin yn rhy fynych yn ddim ond ffasiwn, ac heb iddynt un meddwl o gwbl. Tybiwn fod genym eglurhad ar hyn yn Efengyl Ioan, xiv. 27: "Yr wyf yn gadael i chwi *dangnefedd*; fy nhangnefedd yr ydwyf yn ei roddi i chwi; nid fel y mae y byd yn rhoddi yr wyf fi yn rhoddi i chwi." Gair cyfarchiadol yr Iuddew yw Salaam, a'i ystyr yw Tangnefedd. Ffurf arall o'r gair yw Salem. Fel y dywedwn ni ein "Nos dawch" a'n "Dydawch" yn gwbl ddiystyr, ac y gofynwn, "Sut y'ch chi heddy," a hyny yn fynych heb aros i gael ateb; felly yn gywir y gwnelai yr Iuddew gyda'i Salaam, Salaam (Tangnefedd, Tangnefedd), a hyny yn unig o ran ffasiwn. Nid felly y gwnelai yr Iesu: "Yr wyf yn gadael i chwi Salaam, fy Salaam yr ydwyf yn ei roddi i chwi; nid fel y mae y byd," &c.

S. N. S.

Mae pwnc blwydd-dal *(pension)* i hen bobl yn tynu cryn sylw y dyddiau presennol. Barna Mr. Chamberlain fod y mwyafrif mawr o'r rhai hyny sydd yn gorfod gofyn help plwyfol, dan orfod felly heb un bai o'r eiddynt eu hunain. Dywed fod yn agos un o bob dau o'r dosparth gweithiol dan orfod o'r fath, yn unig am fod yr ymdrech am fywyd wedi myned yn drech na hwy; a'i farn yw y dylai'r Senedd sicrhau hanner coron yr wythnos i bawb ydynt wedi dangos cyminaint o ragofal ag i gael hanner coron oddiwrth y Cymdeithasau Cyfeillgar.

Barna y Parch. T. Rhondda Williams, yr hwn sydd yn awr yn weinidog gyda'r Annybynwyr yn Bradford, fod telerau cymundeb gyda'r eglwysi yn llawer rhy gaeth Noda allan nad oes yn y naw gwynfydau yn y bregeth ar y mynydd ddim o'r un yn cael ei gyssylltu â chred yn y Drindod, y Cenedliad Gwyrthiol, na'r Iawn Dirprwyol, na Duwdod Crist Nid dirgeledigaethau dadansoddol, nid rhyw *metaphysical abstractions* yw y pethau y gosodir pwys arnynt yno, ond gostyngeiddrwydd, addfwynder, uniondeb, purdeb.

Y MUDIAD RHAGBLAEN YN LLUNDAIN.

Beth ydych chi'n feddwl am y mudiad newydd yn Llundain, John Thomas, ebe John Jones.

J.T.—Beth ydy' hwnw? Ydw' I ddim wedi clywed.

J.J.—Y Mudiad Rhagblaen. Y mae yn bryd i'r Undodiaid ddeffroi o gysgu, a cheisio dangos eu bod yn fyw, a gadael i'r byd wybod fod ganddynt rywbeth ag y maent yn ei werthfawrogi— rhywbeth a fyddai

yn werth i ereill wybod am dano hefyd. Mae yr Undodwr wedi bod yn ddigon hir ar ei amddiffyniad: mae'n bryd bellach iddo fyned allan i'r prif ffyrdd a'r caeau i gyhoeddi'r genadwri sydd ganddo. Buom bron cael myned yn sarn dan draed eglwys yr offeren tuag adeg etholiad diweddaf y Bwrdd Ysgol yn Llundain.

J.T.—Wel, ni wn I ddim beth i feddwl. Yr ydw' I'n gymmaint o Undodwr ag y buo I erioed, ond ymddengys i mi mai *losing game* ydyw hi gyda ni. 'Dwy' I ddim yn sicr fod pawb o'n gweinidogion yn credu'n fawr mewn Undodiaeth fel plaid, neu dangosent ryw ychydig mwy o weithgarwch; ac y mae hyny yn peru i mi deimlo weithiau y byddai cystal ini ei *jerco* i fyny a chymmeryd ein llyncu gan yr enwadau ereill. 'Welsoch chi'r *cartoon* enwadol yn y *Western Mail* ddydd Gwener diweddaf?

J.J.—Ffei i chwi, John Thomas! Yr wyf yn synu atoch! Hwy i'n llyncu ni, a ninau i lyncu'r credoau!' Ellwch chi wneuthur hyny? Y gwir yw, 'does enwad yn y byd yn llwyddo os nad yw yr Undodiaid yn llwyddo. Gwir nad yw ein capelau mor llawn ag y dymunem, a gwir nad yw pawb Undodiaid mor ffyddlon ag y dylent fod. Ond beth am hyny? Fe ddywedodd rhywun gynt nad teg oedd barnu Cristnogaeth wrth ymddygiad annghysson ei phroffeswyr; felly yn gyffelyb nid ar Undodiaeth mae'r bai os oes rhai o'i phroffeswyr yn anffyddlon. Ond os medra' I ddarllen arwyddion yr amserau, mae treigl yr enwadau yn nghyfeiriad Undodiaeth. Nid Trindodiaid ydyw beirdd mwyaf ein canrif wedi bod. Ofer chwilio am y credoau yn marddoniaeth Tennyson a Browning; ac am feirdd mwyaf yr Amerig, yr oeddynt oll oddigerth Whittier yn Undodiaid proffesedig, ac ofer i neb o'r credoau hawlio barddoniaeth Whittier, er ei fod ef yn galw ei hunan yn *Quaker*. Mae agos un o bob pedwar o'n gweinidogion ni yn Mhrydain yn ddychweledigion oddiwrth enwadau ereill, ac yn ddychweledigion oddiwrth bron pob enwad. Ni ddeuant atom ni er mwyn arian—nid yw hwnw i'w gael genym ni. Tlawd ddigon ydyw ar y pregethwr Undodaidd o ran arian. Nid er mwyn arian, nid er mwyn tyrfa fawr, y try neb yn Undodwr; ond er mwyn gwirionedd a chydwybod. Ond beth am y *cartoon?* Teb g genyf mai tipyn o *joke* neu *take-off* ar yr Undodwr ydyw.

J.T.—Darlun o faintioli cymharol y gwahanol enwadau yw. Yn gyntaf, ceir yr offeiriad golygus yn arwain, ac yn rhyw wyth troedfedd o daldra; y Methodist yn canlyn yn rhyw chwech troedfedd; yna yr Annybynwr yn rhyw bump a hanner; y Bedyddiwr yn bump, y Wesley yn ddwy a hanner, a'r Undodwr feallai yn hanner troedfedd, bron yn rhy fach i'w weled. Mae yn ddarlun pert iawn.

J.J.—Gall fod; darlun o *stand-point* Eglwyswr yw er hyny. Ond a ydych yn tybied am foment fod y gwir gyda'r mwyrif? Onid yw y mwyrif yn ddiarebol wedi bod yn y *wrong* trwy yr oesau? Nid oedd Cristnogion y ganrif gyntaf ond mygys llonaid dwrn, ac yn sect y dywedid yn mhob man yn ei herbyn. Beth am dani heddyw? Gyda hi oedd y gwirionedd y pryd hwnw. Yn mha le y mae heddyw? Cyfaddefaf mai bach o rif ydyw ein henwad ni heddyw, ond credaf yn ddiysgog fod y gwirionedd gyda ni, ac fod dydd dysglaer yn aros y

gwirioneddau y safwn drostynt. Yr ydych yn adgofio i mi yr Israeliaid yn hiraethu am "grochanau cig" tir y caethiwed. Trwy aberth mawr yr ennillodd ein tadau y gyfran o ryddid a fwynhawn ni yn awr; a gawn ninau brofi yn anffyddlon ac esgeuluso rhybudd Paul, "Sefwch yn y rhyddid â'r hwn y rhyddhaodd Crist ni." A fynech ein harwain yn ol etto i'r caethiwed y bu ein tadau yn brwydro yn ei erbyn?

J.T.—Dim perygl caethiwed etto; mae yr oes yn rhy oleu i'w oddef.

J.J.—Dim o'r fath beth; os gellwch chi ddarbwyllo yr oes i wneyd yn ol eich awgrymiad eich hunan gyneu, os ydyw yn rhy oleu—rhy oleu yw i ddychwelyd i gaethiwed, ac nid i'w oddef. Gellwch fentro hyn fod digon o barodrwydd ar ran rhai i dori i lawr holl waith Protestaniaeth yn y gorphenol. Os nad yw y frwydr fawr rhwng gormes a rhyddid i'w hymladd unwaith etto, rhaid yw i Ryddfrydwyr fod yn ffyddlon.

J.T.—Dim perygl. Mae yr holl awyrgylch yn ffafriol i ryddid, ac hyd y nod y plant bach, braidd yn ddiarwybod iddynt eu hunain, yn llefaru geiriau gwirionedd.

J.J.—Peidiwch a siarad dwli. Os darfu i'r plentyn pedair oed yn un o ysgolion y Bwrdd yn Llundain ateb yr offeiriad mai Joseph oedd tâd yr Iesu, nid dylech annghofio'r canlyniad, a'r ymgais warthus a wnaethpwyd i geisio dwyn yr holl ysgolion dan ddylanwad yr offeiriadaeth, er mwyn dysgu credoau'r Eglwys i'r plant bach, a hyny ar draul y trethi. Nid cyfiawn fy ngorfodi I i dalu treth i ddysgu credoau nad wyf yn credu ynddynt i blant Trindodiaid, na neb arall. Os ydynt am ddysgu credo Sant Athanasius, gwnaent hyny ar eu traul eu hunain. Gwir na lwyddwyd yn yr ymgais; ond diffyg gallu, ac nid diffyg ewyllys, oedd yr achos o hyny. Fe ddeffrowyd Llundain mewn modd na wnaed erioed o'r blaen, ïe, fe ddeffrowyd rhai o'r hen wlaneni cysgadurol i deimlad o ddyledswydd, ac felly rhwystrwyd llwyddiant i blaid yr offeiriadaeth y tro hwn. Ond y peth i'w ofni yw, y delir ni yn cysgu ryw dro arall. Felly, meddaf, gwyliwch a gweddiwch. Er mwyn hyd y nod i'r gwir lwyddo, rhaid i ddynion weithio o'i blaid.

J.T.—Fe lwydda'r gwir, nad beth wnawn ni.

J.J.—Fe lwydda'r gwir, ond nid heb help. Fe lwydda trwy ffyddlondeb rhywrai, os nad yr eiddom ni. Mae cyfeiliornad yn fwy tebyg o lwyddo yn nwylaw pleidwyr gwresog, nag yw'r gwir ei hunan pan y gadewir ef wrtho ei hun heb help. Rhaid i'r Goruchaf ei hun wrth gyfryngau i gario ei waith yn y blaen; a gwae ni os byddwn anffyddlon i'r alwedigaeth nefol.

J.T.—Garw fel y mae Diggle a Ryle wedi eich cynhyrfu. 'Dwy'n cofio dim erioed eich gweled mor frwd dros eich pwnc o'r blaen.

J.J.—Nid yw Diggle a Ryle ond enghreifftiau o'r dylanwad sydd yn gweithio heddyw mewn llawer cyfeiriad. Nid yw Ucheleglwysyddiaeth ond Pabyddiaeth dan enw newydd. Os ydynt hwy yn gweithio yn egniol, rhaid i ninau wrthweithio yn fwy, neu aiff ein Protestaniaeth yn llythyren farw. I ba beth y buwyd yn dathlu coffadwriaeth

yr Archesgob Laud, prif erlidiwr ei oes, y dydd o'r blaen? I ba beth y dywedodd yr offeiriad y dydd o'r blaen fod yn rhaid diwreiddio y syniad o "Ryddid Meddwl" allan o feddyliau dynion? Credwch neu beidiwch, y mae cais beiddgar ar droed i arwain y wlad yn ei hol i gael ei sarnu etto, fel cynt, dan draed yr offeiriad. Ac yr ydych chwi yn awyddus i gael eich *goddef* i farnu drosoch eich hunan! Nid felly fi. Yr ydwyf fi yn hawlio y rhyddid i farnu fel eiddo personol, fel genedigaeth fraint, ac nid wyf yn foddlon ei werthu am saig o gawl coch. Gall fod yn hawddach myned a dylyn y lluaws, ond nid felly y gwnaiff dyledswydd, ac nid felly y gwnaeth Luther, yn ei ddydd ef. Chwi a ddylech gofio hanes brwydrau a dyoddefiadau y tadau. A wyddoch chi paham yr oedd ein hen gapelau mewn lleoedd annghysbell, yn ngheseiliau y mynydd? Atebwch hyn i mi, os gwyddoch. A wyddoch chi i ba beth y pasiwyd y *Corporation Act*, 1661; Deddf Unffurfiaeth, 1662; y *Conventicle Act*, 1664; y *Five Mile Act*, 1665; y *Test Act*, 1763? Oni wyddoch, holwch, a holwch hanes dyoddefiadau hen dadau ffyddlon ein ffydd o'u plegyd. Och fi! Holwch paham y cynneuwyd y ffagodau, paham y llanwyd y carcharau? A ydyw yn rhyfedd nad yw ein henwad ni yn boblogaidd nac yn lluosog? Mor ddiweddar a 1813 yr oedd un a wadai'r Drindod yn agored i gosp.

J.T.—Yr ydym yn byw heddyw ar ddiwedd y 19eg canrif, ac nid yn nghanol yr 17eg. Cofiwch hyny.

J.J.—Gwir ddigon. Ond nid wyf fi am ymrestru dan faner erlidwyr ein tadau, ac nis gallwch ambeu nad oes elfenau cryfion yn gweithio heddyw i droi olwyn cymdeithas yn ei hol. Dyna'n wir oedd cais Diggle a Ryle ar adeg etholiad Bwrdd Ysgol Llundain. Byddai yn rhy anhawdd i *outsiders* wahaniaethu rhwng egwyddorion Ryle ag eiddo y Babaeth. Nid diffyg ewyllys, ond diffyg gallu yw na fyddai tanau Smithfield yn llosgi mor ddysglaer heddyw ag erioed. Mae felly yn dda genyf fi am y mudiad newydd, a chredaf y dylem ddeffroi oll fel Undodiaid a cheisio bod yn Undodiaid goleuedig; chwilio am y gwirionedd, sefyll drosto, ac ymladd o'i blaid, os bydd angen hyny tuag at gadw ein rhyddid. I Undodwr, mae y mudiad yn golygu rhyddid, rhyddid i bawb, ac yn gyffelyb i bawb. Cydraddoldeb bleidiwn, nid goddefiad. Pa hawl sydd gan un yn fwy na'r llall i oddef arall. Nid yw goddefiad ond un cam yn fyr o ormes. Nid ydym am i neb ein *goddef*, hawliwn gydraddoldeb. Felly gyrwn ein baner i fyny—baner Undodiaeth!

Ionawr 21, 1895. S.

DIC SHON DAFYDD.

Gwae yr adyn digredyd—hyd ei oes
Wado iaith ei febyd—
Iaith gu reddf fu wrth ei gryd
Yn ei alw yn anwylyd.

'Nol iddo dario un dydd—o'i hen wlad,
Daw'n ol yn Sais celfydd;
Iaith arw'i fam—mor ddyeithr fydd
Ei sain hi i'r Sais newydd.

Ffei o'i agwedd yn ffugio—iaith y Sais—
Mae'r rhith "Syr" yn gwawdio
Ei fam; ac ni etyb fo
Acenion Cymreig hono.

Dan wg o olwg etto—yr adyn—
Rhodied fyth ar ddidro;
Ar ei dafod rhwd dyfo,
Ac ar ei fin cancr fo.

DEWI WYN O ESSYLLT.

DAMMEG (O RWSSIA).

ADRODDWYD GAN TYWYSOG WOLKONSSKY YN SENEDD CREFYDDAU Y BYD YN CHICAGO.

YR oedd hen wraig yn yr hen amser gynt, ar ol bywyd hir o hunangais a hunangariad, yr hon a gafodd ei hunan o'r diwedd yn—uffern! Gyrodd Arglwydd y Nefoedd angel i'r man neillduol lle'r oedd yn trigiannu, i geisio cael allan a oedd yno rywun yn y lle a allai trwy ryw ddamwain fod yn perthyn i rywle arall. Taer ymbiliodd y wraig arno ei chymmeryd allan o'i phoen, yr hwn oedd yn annyoddefol. Gofynodd yntau iddi a oedd rhywbeth wedi ei wneyd ganddi pan ar y ddaear a allai hi gofio am dano yn awr gyda llawenydd. "Dim," meddai, gydag ochenaid, "dim, dim!" "Meddyliwch," meddai'r angel, "a ddarfu i chwi ddim gwneyd rhyw weithred o ddaioni anhunangar i rywun yn ystod eich oes?" Atebodd etto yn drist, "Dim!" Ac yna cofiodd, "Ond yr oedd yn beth mor fychan," ac yna'r oedd ochenaid drachefn, "Rhoddais foronen goch unwaith i hen wraig dlawd a newynog." Dywedodd yr angel fod yr un foronen hono yn ddigon cryf iddi ddal wrthi a chael ei chodi i fyny o uffern. Felly ymaflodd yn un pen i'r foronen, ac ymaflodd yr angel yn y pen arall. Yn raddol, graddol, yr oedd y fenyw druan yn cael ei chodi i fyny ac i fyny. Yna darfu i ryw bechadur truan arall ymaflyd ynddi hithau gerfydd ei throed, ac wele hono yn cael ei chodi, ac ymaflodd un arall yn hono, ac un arall yn hono drachefn. Ac yr oedd yr angel yn raddol yn dyrchafu y gadwen hir hon o bechaduriaid gerfydd yr un foronen hono oedd wedi cael ei rhoi mewn yspryd cariad a thosturi nefol. Ond dechreuodd y wraig oedd â'r afael gyntaf, wrth weled fod y baich yn fawr i angel Arglwydd y Nefoedd, ofni ac amheu; a dechreuodd gicio er mwyn rhyddhau gafael y fenyw oedd islaw yn gafaelu yn ei throed. Etto i gyd yr oedd yr angel yn parhau i godi'r oll i fyny. Ond cicio yr oedd y wraig drachefn, a gwaeddi ar y rhai islaw

nad oedd y foronen ddim yn ddigon cryf i'w codi i gyd, a chicio wnai drachefn a thrachefn, a dechreuodd waeddi, "Fi bia'r foronen." A chyda'r gair "*Fi*," yna torodd y gadwen, gollyngodd yr angel ei afael, a syrthiodd y bobl i gyd, a'r hen wraig druan gyda hwy, yn ol i boenau'r lle poeth!

C. L.

Manion ac Hanesion.

CWMBACH.—Rhagfyr 31, cynnaliodd aelodau Ysgol Sul y lle uchod ei gwyl de flynyddol, pan y darfu i bob peth droi allan yn hynod lwyddiannus.

T.C.U.—Yn y rhifyn diweddaf o *Cymru*, y mae darn o gerddoriaeth o waith Mr. W. Davies, St. Paul's Cathedral, Llundain, wedi ei gyfansoddi ar gyfeithad rhagorol T.C.U. o "Weddi dechreu Blwyddyn" Adelaide Proctor, yr hwn a ymddangosodd yn YR YMOFYNYDD am Ionawr, 1895.

REUBEN BRYDYDD Y COED.—Mae mewn llaw erthygl ragorol ar y bardd ieuanc hwn, wedi ei hysgrifenu gan fardd arall, Dewi Hefin; ond gresyn dweyd nad oes yna ddarlun o Reuben ar glawr, a rhaid i ni gyhoeddi yr erthygl heb y darlun.

PONTYPRIDD.—Mis hynod oedd mis Rhagfyr i ni yn Mhontypridd. Syrthiodd i'n rhan i ffarwelio â chwech o aelodau ffyddlawn. Dychwelai rhai o honynt i'w cartrefi yn y wlad hon, tra yr elai ereill i chwilio am gartrefi newyddion mewn gwledydd pellenig. Nos Wener, Rhag. 28, cynnaliwyd cyfarfod ymadawol i bedwar o honynt, sef Mr. Wm. a Mrs. Gimblette, Miss Parry, a Mr. Thomas Rosser. Cymmerwyd y gadair gan Mr. John Lewis, ac yn ei anerchiad godidog galwodd sylw at yr anhawsderau sydd gan Undodwyr i'w gwynebu, a chyfeiriodd hefyd mewn geiriau cymmeradwyol at lafur a ffyddlondeb y cyfeillion oeddent yn ymadael. Yn ystod y cyfarfod cyflwynwyd côd yn dal can' gini i Mr. Gimblette, *Album* yn cynnwys darluniau o amryw enwogion Undodaidd i Mrs. Gimblette, a phedair cyfrol o weithiau Dr. Martineau, sef ei *Essays*, *Reviews and Addresses*, i Mr. Rosser. Gwnaeth Mrs. John Lewis a Mrs. Mayberry Mhomas y cyflwyniadau mewn modd hynod hapus a phwrpasol. Siaradwyd ar yr achlysur gan y gweinidog a Mr. Lewis N. Williams, Aberdar, a chanwyd a chwareuwyd yn fedrus gan amryw o gantorion. Mae Mr. Rosser, yr arwr yn nhrychineb Glofa y Great Western, yn myned i Johannesburg, Deheudir Affrica, i geisio ffortiwn, a Mr. a Mrs. Gimblette, i Coolgardie, Gorllewin Awstralia, i geisio adnewyddiad iechyd iddo ef. Y llinell arbenig yn yr hon y gweithiai Mr. Gimblette oedd fel lledaenwr ein llenyddiaeth uchelryw. Dyma ran bwysig o'n gwaith ni yn y dref hon a'r cylch. Taflodd ein brawd ei galon i'r gorchwyl. Caffed adferiad iechyd, a gweithied gyda chyffelyb by byrwch yn yr un cyfeiriad yn Awstralia. Dymunwn lwyddiant i ddylyn un ac oll o'r cyfeillion ar eu hymadawiad.

Ionawr 8, 1895. AMICUS.

Marwgofion.

Rhagfyr 22, yn 34 oed, bu farw Anne Hughes, Cefnbryn, ger Cribyn, ar ol cystudd byr. Gadawodd briod a chwech o o blant bychain i alaru ar ei hol; ac nid bychan oedd eu colled, o herwydd yr oedd yn briod ffyddlon ac yn fam dyner a gofalus. Ein gweddi ar ei rhan yw, ar i Dad yr amddifad daenu ei aden raglunaethol drostynt. Yr oedd yn aelod ffyddlon o gynnulleidfa Cribyn, ac nid yn aml y gwelid ei lle yn wag; ac yr oedd yn un a berchid yn fawr gan bawb o'i chydnabod ar gyfrif ei hynawsedd. Cymmerodd ei chladdedigaeth le boreu y dydd Mawrth canlynol (sef boreu dydd Nadolig), pryd y daeth torf anarferol o luosog yn nghyd i hebrwng yr hyn oedd farwol o honi i

fynwent y Cribyn. Gweinyddwyd ar yr achlysur gan weinidog y lle.

Rhagfyr 23, yn 62 oed, Sarah Evans, "Temperance," Pontwely, Llandyssul, gynt o Tanycoed, Llangeler. Yr oedd yr ymadawedig yn orwyres i Dafis o Gastellhywel, ac yn chwaer i'r Parch. Joshua Evans, Ficer Pontypwl. Cafodd gystudd hir, a dyoddefodd yr oll yn amyneddgar. Yr oedd yn aelod ffyddlon o eglwys y Llwyn a'r Graig, Llandyssul, hyd nes y methodd gan ei hafiechyd, ac yn Undodwraig selog, fel ei holl dylwyth. Claddwyd hi y dydd Iau canlynol yn mynwent y Llwyn, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parchn. W. J. Davies a T. Arthur Thomas. Y dydd Sul canlynol traddodwyd y bregeth angladdol yn nghapel y Graig.

Ionawr 17, yn 10 mis oed, John, maban John ac Elizabeth Jones, Pwllgrafel, Pantdefaid, a chladdwyd ef y dydd Sadwrn canlynol yn mynwent Pantdefaid. Gwasanaethodd Mr. T. T. ar yr achlysur.

Ionawr 17, David Jones, Castell, Pencarreg, Sir Gaer, yn 85 oed. Yr oedd yr ymadawedig hen gyfaill er ys blynyddau yn wael ei iechyd, ond etto, hyd yn ddiweddar, yn alluog i fyned oddiamgylch pan fyddai rhyw achos neillduol yn ei alw. Yr oedd yn cael ei gyfrif yn un o ddynion blaenaf ei blwyf ei hun, ac yn adnabyddus iawn yn y cymmydogaethau amgylchynol. Yr oedd iddo barch cyffredinol, a charai pawb ei gwmni pan fyddai cyfleusdra yn caniatau. Yr oedd yn ben siaradwr ac ymresymwr mewn cyfeillachau ar bwnc o dduwinyddiaeth neu wleidyddiaeth, a gallai ymddyddan heb achosi tramgwydd na chreu gelyniaeth. Weithiau ar ol dadl boeth ni fyddai efe a'i wrthwynebwr yn llai o gyfeillion, ond efallai yn fwy, o herwydd dod i ddeall eu gilydd yn well, a thrwy hyny yn nes yn eu golygiadau. Yr oedd yn Rhyddfrydwr egwyddorol—nid er mwyn propio plaid. Proffesai ac amddiffynai ei egwyddorion yn ddiofn o'r canlyniadau. Yr oedd hefyd yn Undodwr gwirioneddol a di-dderbyn-wyneb. Meddai gredo gyfan a sylweddol, ac nid rhyw gymmysgedd meddal a diafael, ac yr oedd yn barod bob amser i roi ei resymau drosti. Yr oedd yn un o aelodau henaf a ffyddlonaf Capelgroes, a chyn cael ei orddiwes gan afiechyd a henaint, nemawr byth y byddai efe a'i anwyl briod, yn nghwmni ei blant, yn absennol o'r addoliad yn nghyfarfodydd y boreu. Dim ond unwaith yn unig, os wyf yn cofio yn iawn, y bu yn y capel newydd a thlws presenol; ond er yn analluog i uno â'i frodyr a'i chwiorydd mewn addoliad yn y cyssegr fel cynt, etto, teimlai yr un mor wresog dros yr achos ag erioed. Cafodd hir ddyddiau i fyw ar y ddaear, a bydded i'w briod a'i blant, a'i berthynasau a'i gyfeillion sydd ar ol, fod yn ddiolchgar i Dduw am ei arbed cyhyd. Claddwyd yr hen gyfaill y Llun ar ol ei farwolaeth yn mynwent Capelgroes. Yn y ty annedd darllenodd a gweddiodd y Parch. J. Davies, Alltplaca; pregethodd ei hen weinidog, Mr. T. Thomas, Green Park; yn y drws cyn cychwyn gwasanaethodd ei feistr tir, sef y Parch. Mr. Jones, Periglor Llangybi; yn y capel darllenwyd a rhoddwyd emyn allan i'w ganu gan y Parch. E. E. Jenkins, y gweinidog presennol; a therfynwyd y gwasanaeth trwy weddi ar lan y bedd gan y Parch. R. C. Jones, Brondeifi, Llanbedr. "Dros ennyd fechan ni 'madawn."

Chwefror 5, yn 68 mlwydd oed, Evan Jones, Cadwgan, Llandyssul. Claddwyd ef yn Mhantdefaid y dydd Sadwrn canlynol. Pregethodd T.T. ar yr achlysur yn y capel.

Chwefror 6, Prosser Thomas, Craigtrebanos, yn 47 oed. Nid yn aml y deuir i gyffyrddiad â gorchwyl mwy annymunol nâ chofnodi marwolaeth y cyfaill uchod, fel un ag sydd wedi ateb dyben ei fodolaeth i raddau helaeth iawn. Prif achos ei farwolaeth oedd y ddarfodedigaeth; ac yr oedd wedi ei anallogi i weithio er ys blynyddau lawer. Yr oedd bob amser yn dawel, diniwed, sobr, a heddychlawn, ac yn barchus gan bawb a'i hadwaenent. Yr oedd hefyd yn aelod selog gyda'r M.C. yn Mhontardawe, ac yn hyddysg iawn mewn gwahanol gyfeiriadau. Y dydd Sadwrn canlynol, daeth torf fawr iawn o bererinion yr anialwch i gludo ei briddlyd babell i hen fynwent Gellionen, pryd y gwasanaethwyd ar yr achlysur yn bwrpasol iawn gan ei weinidog. Ymddirieded ei frodyr, a'i chwiorydd, a'i hen fam oedranus, yn y Duw byw, yr hwn a fedr eu dyddanu mewn awr o gyfynder.

Aeth ar elor i orwedd
O dwrw'r byd i oror bedd;
Duw yn wastad wna estyn
'R ewyllys deg er lles dyn.

EMRYS.

Jenkin Howell, Argraffydd, &c., Aberdar.